Cymwys ar gyfer y dyfodol

CYNNWYS

Cymwys ar gyfer y dyfodol

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr 3

1. Cyflwyniad 4

Ein rôl 4

Ffocws yr ymgynghoriad hwn 4

Cipolwg ar y cynigion 5

Sut i ymateb 7

Ymgynghoriadau yn y dyfodol 8

2. Cefndir 10

Cwricwlwm newydd i Gymru 10

Angen parhaus am gymwysterau yn 16 oed 12

Tirwedd cymwysterau yng Nghymru 13

3. Ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol 14

Ennyn hyder y cyhoedd, gyda hygrededd yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang 15

Sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog 15

Gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol 16

Cyflawni newid cynaliadwy a reolir 16

4. Egwyddorion i lunio'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol 18

Egwyddor 1: Cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru ac yn ei gefnogi 19

Egwyddor 2: Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog 21

Egwyddor 3: Cymwysterau sy'n rhan o gynnig teg a chydlynol 24

5. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol 27

Manteision cadw'r enw TGAU 27

Yr heriau posibl o gadw'r enw TGAU 31

Dull amgen 31

Crynodeb 32

6. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach 34
Crynodeb 36
7. Asesiad Effaith Integredig 38
8. Gwaith yn y dyfodol 40
Atodiadau 42
Atodiad A: Sut rydym wedi datblygu'r ymgynghoriad hwn 42
Atodiad B: Tirwedd cymwysterau yng Nghymru 47

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau o'r enw 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' rydyn ni'n eu cynnal yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bwriad y cynigion rydyn ni'n eu gwneud yw ategu ein gwaith o ail-lunio cymwysterau er mwyn gweddu i gwricwlwm newydd Cymru.

Mae cymwysterau TGAU wedi cael eu diwygio'n ddiweddar, ond mae'r cwricwlwm newydd yn gyfle cyffrous i ailfeddwl sut yr ydym am i arholiadau ar gyfer pobl ifanc 16 mlwydd oed edrych. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam cyntaf pwysig ble byddwn ni'n sefydlu egwyddorion er mwyn llywio ein gwaith a chyflwyno cynigion er mwyn llunio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i ysgolion a dysgwyr.

Ar y cyfan, rydyn ni'n credu bod achos cryf dros ystyried yr ystod o gymwysterau a phynciau sydd ar gael fel y gallwn ni sicrhau eu bod nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwricwlwm a'i amcanion. Rydyn ni'n disgwyl lleihau nifer y cymwysterau fel bod ystod drefnus a chynhwysfawr sy'n hawdd i'w llywio a'i deall. Rydyn ni eisiau sicrhau bod rhywbeth i bawb yn yr ystod, beth bynnag eu galluoedd, ar draws disgyblaethau academaidd a chyd-destunau galwedigaethol.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n disgrifio'r ystod bresennol o gymwysterau sydd ar gael i ysgolion ac yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n chwilio am farn ar yr egwyddorion rydyn ni'n bwriadu eu defnyddio, gan gynnwys safbwynt llawer cryfach ar ein gofynion bod rhaid i gymwysterau fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydyn ni hefyd eisiau eich barn ar beth fyddwn ni'n galw'r cymwysterau sy'n cael eu cymryd gan bobl ifanc 16 oed, ac ein cynnig am gymhwyster penodol i asesu sgiliau.

Penllanw ein gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf fydd cymwysterau newydd fydd yn barod i'w haddysgu i bobl ifanc 14 oed ym mis Medi 2025. Er mwyn llwyddo i wneud hyn bydd angen gwaith parhaus gan ystod eang o randdeiliaid. Rydyn ni'n croesawu eich barn ac yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi eich ymatebion a'n cyngor ni i Weinidogion Cymru y gwanwyn nesaf. Diolch am dreulio amser yn rhannu eich barn gyda ni.

1. Cyflwyniad

Ein rôl

1.1. Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys cymwysterau TGAU, Safon Uwch a galwedigaethol.

1.2. Un o'n swyddogaethau yw penderfynu pa gymwysterau y gellir eu gwneud yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus. Rydym yn rhestru'r holl gymwysterau sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru ar ein gwefan[1].

Ffocws yr ymgynghoriad hwn

1.3. Mae addysg yng Nghymru yn cychwyn ar gyfnod sylweddol o newid. Wrth wraidd y newidiadau hyn mae cwricwlwm newydd ac arloesol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Yn yr ymgynghoriad hwn, edrychwn ar y ffordd y gall cymwysterau yn y dyfodol gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd a helpu i wireddu ei uchelgais.

1.4. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at sut y gall y cymwysterau a gymerir yn 16 oed barhau i addasu ac ymateb i anghenion y dyfodol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol a thwf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Ein gweledigaeth yw bod pobl ifanc 16 oed yn sefyll cymwysterau ac iddynt barch byd-eang sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

[1] https://www.qiw.wales/?lang=cy

1.5. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a datblygu ein hymagwedd tuag at gymwysterau yn y dyfodol, bydd angen ymdrech ar y cyd gyda mewnbwn gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb yn y system addysg. Byddwn yn ceisio barn y rhanddeiliaid hyn trwy gyfres o weithgareddau ymgysylltu, ymchwil ac ymgynghori.

1.6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chydweithio fel y gall pawb chwarae eu rhan wrth lunio'r cynnig o ran cymwysterau i'r dyfodol. Rydym am glywed gan y canlynol:

- dysgwyr
- rhieni a gofalwyr
- gweithwyr addysg proffesiynol
- ysgolion a darparwyr dysgu cyn-16 eraill
- colegau addysg bellach
- darparwyr hyfforddiant a dysgu seiliedig ar waith
- prifysgolion
- darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon
- cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol
- awdurdodau lleol
- consortia addysg rhanbarthol
- undebau addysgu
- cyrff dyfarnu, ac
- unrhyw sefydliadau neu unigolion eraill sy'n gweithredu yn y sector addysg neu sydd â diddordeb yn y sector addysg.

Cipolwg ar y cynigion

1.7. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar agweddau allweddol ar ein dull o benderfynu ar y cymwysterau a fydd ar gael i ddysgwyr 16 oed i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Yn benodol, rydym yn amlinellu ein cynigion i:

- sefydlu set o egwyddorion i lunio sut y byddwn yn penderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu'n cyhoeddus;

- ailddylunio cymwysterau TGAU fel eu bod yn rhan ganolog o'r cymwysterau a fydd ar gael ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru; a
- chynnwys cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd fel rhan o'r cymwysterau a gynigir.

1.8. Mae ein dull o ddatblygu'r cynigion hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[2] a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'n hamcanion mewn perthynas â'r Ddeddf hon[3].

1.9. Er enghraifft, rydym wedi siarad ag ystod eang o randdeiliaid trwy raglen gynhwysfawr o ymgysylltu ac ymchwil ac wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion ar bobl sy'n byw yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fonitrocynnydd yn erbyn ein hamcanion wrth i unrhyw gymwysterau newydd gael eu datblygu.

1.10. Ceir rhagor o wybodaeth am bwy yr ydym wedi ymgysylltu â hwy hyd yn hyn a'r rhagdybiaethau gwaith yr ydym wedi'u mabwysiadu wrth ddatblygu'r cynigion yn Atodiad A.

1.11. Ar gyfer pob cynnig, gofynnwn a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig a rhoddwn gyfle i chi egluro'ch barn. Mewn perthynas â'n cynigion i ailddylunio cymwysterau TGAU ac i gynnwys cymhwyster penodol sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ac asesu sgiliau ehangach, rydym hefyd yn gofyn i chi gynnig awgrymiadau ar sut y gellid dylunio'r cymwysterau hyn i wireddu ein gweledigaeth, ynghyd â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd. Rydym wedi cynnwys y cwestiynau ymgynghori perthnasol yn dilyn pob cynnig yn y ddogfen hon.

1.12. Rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig ar wahân. Yn adran 8 o'r ddogfen hon, gofynnwn am eich barn ar effaith ein cynigion, gan gynnwys unrhyw effaith ar y Gymraeg ac unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig[4].

---

[2] Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn amlinellu pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i gyflawni nodau llesiant y Ddeddf. Mae'r rhain yn rhai **tymor hir** (cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir), **atal** (atal problemau rhag digwydd neu waethygu i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu nodau), **integreiddio** (ystyried effaith ein hamcanion ar y nodau llesiant ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill), **cydweithredu** (gweithio gyda phobl berthnasol eraill) a **chynnwys** (cynnwys eraill sydd â diddordeb yn y nodau llesiant).

[3] https://qualificationswales.org/media/3338/wellbeing-future-generations-objectives-2018-w.pdf

[4] Fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010

1.13. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwn, ochr yn ochr â sylwebaeth yn amlinellu ein penderfyniadau a'r rhesymau drostynt, yn ystod gwanwyn 2020.

Sut i ymateb

1.14. Rydym yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein. Mae hwn ar gael i'w gwblhau yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu trwy ymweld â'n gwefan.

1.15. Er mwyn eich helpu i ystyried y cwestiynau ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, neu eu trafod ag eraill, rydym wedi sicrhau bod copi o'r cwestiynau ar gael ar ein gwefan.

1.16. Lle bo modd, cyflwynwch eich atebion gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein. Os oes angen i chi ddarparu'ch ymateb trwy fformat gwahanol, anfonwch ef at:

> Ymchwil Arad yn post@arad.cymru, neu: 8 Rhodfa Columbus, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4SD.[5]

1.17. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd sy'n amlinellu sut y byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn eich ymateb. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

1.18. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad ei hun, cysylltwch â diwygio@cymwysteraucymru.org.

1.19. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 5yh ddydd Gwener 7 Chwefror 2020. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a gyflwynir ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

[5] Gellir rhannu unrhyw ymatebion i'r arolwg ar-lein, neu rai a gyflwynir yn uniongyrchol i Arad, gyda Cymwysterau Cymru yn llawn i helpu i ddatblygu ein ffordd o feddwl am y materion hyn.

Ymgynghoriadau yn y dyfodol

1.20. Y ddogfen hon yw'r gyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau a fydd yn helpu i lunio'r cymwysterau sydd eu hangen arnom i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r diagram isod yn amlinellu'r gwahanol weithgareddau ymgynghori yr ydym yn bwriadu eu cynnal a'r allbynnau disgwyliedig o bob un o'r rhain.


Tachwedd 2019 i Chwefror 2020
Ymgynghoriad ar:
• Egwyddorion ar gyfer cymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus
• Cadw'r enw TGAU fel rhan o'r cymhwyster sy'n cael ei gynnig
• Ailddatblygu'r Dystysgrif Her Sgiliau i fod yn gymwyster ar wahân
2020
Camau nesaf:
• Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau sy'n deillio o hynny
• Cyngor i'r Gweinidog Addysg
Ymgynghoriad ar:
• Pa gymwysterau penodol fydd yn ffurfio rhan o'r cynnig a ariennir yn gyhoeddus
• Cymwysterau i gefnogi'r continwwm ar gyfer dysgu'r Gymraeg
• Egwyddorion dylunio cymwysterau TGAU ar gyfer y dyfodol (os cânt eu cadw)
• Cynigion mwy manwl ar y cymhwyster ar wahân i asesu "sgiliau ehangach" (os cânt eu cadw)
2021
Camau nesaf:
• Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau a'r penderfyniadau sy'n deillio o hynny
• Cadarnhau amserlen ar gyfer datblygu cymwysterau newydd a'r rhai wedi'u diweddaru
• Ystyried y gofynion rheoleiddiol sydd eu hangen i roi'r weledigaeth a'r egwyddorion ar waith
Ymgynghoriadau ar gymwysterau unigol:
• Nodweddion dylunio a chynnwys y cymwysterau newydd a'u rhai wedi'u diwygio.
Camau nesaf:
• Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ac adrodd ar y canlyniadau
• Cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer pynciau unigol
0 2021
• Cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau newydd a diweddaru eraill i fodloni gofynion rheoliadol
• Gofynion ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu hanfodol i gefnogi cymwysterau a glustnodwyd ac sy'n cael eu bwydo i fodel comisiynu strategol

2. Cefndir

2.1. Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio nodweddion allweddol y cwricwlwm newydd i Gymru, yn amlinellu'r rhesymau dros fod â chymwysterau yn 16 oed, ac yn rhoi dadansoddiad byr o'r ystod gyfredol o gymwysterau sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus y gellir eu cynnig i bobl ifanc 16 oed.

Cwricwlwm newydd i Gymru

2.2. Mae pedwar diben i'r cwricwlwm newydd. Ei nod yw darparu'r holl wybodaeth, sgiliau a phrofiadau sydd eu hangen ar bob dysgwr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben yma.

Pedwar diben y cwricwlwm newydd yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn:

- **ddysgwr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu trwy gydol ei oes
- **gyfranwr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- **ddinesydd moesegol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinesydd Cymru a'r byd
- **unigolyn iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd boddhaus fel aelod gwerthfawr o'r gymdeithas.

2.3. Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i drefnu o amgylch chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Cyfeirir at bynciau a disgyblaethau presennol o fewn y meysydd hyn o hyd, ond mae mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhyngddynt.



2.4. Mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn nodi disgwyliadau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol (cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd), ynghyd â sgiliau ehangach meddwl beirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, ac effeithiolrwydd personol. Mae manylion llawn fersiwn ddrafft y cwricwlwm newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[6].

[6] Llywodraeth Cymru: Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022 - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022

Angen parhaus am gymwysterau yn 16 oed

2.5. Mae rhywfaint o ddadl ynghylch yr angen i ddysgwyr gymryd cymwysterau yn 16 oed. Ar ôl trafod hyn gydag ystod o randdeiliaid, rydym yn dod i'r casgliad fod achos cryf o hyd dros fod â chymwysterau yn 16 oed.

- Mae troi'n 16 yn garreg filltir bwysig ym mywyd person ifanc, pan fydd yn cwblhau ei addysg orfodol ac yn cymryd gwahanol lwybrau i astudio, hyfforddi a gweithio ymhellach.
- Bydd y mwyafrif o ddysgwyr yng Nghymru (dros 90%7) yn parhau naill ai mewn addysg amser llawn neu ryw fath o ddysgu seiliedig ar waith y tu hwnt i 16 oed, ond, i rai dysgwyr, efallai mai'r cymwysterau y maen nhw'n eu cymryd yn 16 oed yw'r unig gymwysterau y byddant yn eu cymryd.
- Yn 16 oed, mae pobl ifanc yn gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch ble maen nhw'n mynd nesaf ac mae cymwysterau'n rhoi gwybodaeth sy'n eu helpu i benderfynu pa lwybr i'w gymryd.
- Mae cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi mynediad i addysg bellach ac uwch, hyfforddiant, a gwaith; mae cymwysterau'n helpu dysgwyr i gystadlu â chyfoedion ledled y DU ac yn fyd-eang.
- Mae cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn helpu dysgwyr i ddangos tystiolaeth o'r addysg eang a chytbwys y maent wedi'i derbyn hyd at y pwynt hwnnw, gan roi sylfaen gadarn iddynt symud ymlaen i feysydd dysgu mwy arbenigol a symud rhyngddynt yn y dyfodol.

2.6. Er ein bod yn cydnabod mai mater i Lywodraeth Cymru fyddai hyn yn y pen draw, credwn y dylai pobl ifanc 16 oed barhau i gael cyfle i astudio ar gyfer cymwysterau. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn edrych ar sut y gallwn sicrhau y gall y cymwysterau hyn addasu i ofynion y cwricwlwm newydd ac anghenion esblygol dysgwyr, yr economi a chymdeithas.

[7] Cyrchfannau Gyrfa Cymru 2018 Blwyddyn 11 – ffigurau cyffredinol
http://cyrchfannau.gyrfacymru.com/year11.html

Tirwedd cymwysterau yng Nghymru

2.7. Mae'r tirwedd cymwysterau gyfredol ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn gymhleth, gyda llawer o gymwysterau'n gorgyffwrdd â'i gilydd neu'n dyblygu ei gilydd. Ym mis Medi 2019, gallai canolfannau yng Nghymru ddewis o blith dros 1,600 o gymwysterau. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr 16 oed yn cymryd nifer sylweddol o'r cymwysterau hyn mewn gwirionedd. Yn y flwyddyn academaidd 2017/2018, nid oedd gan bron i 70% o'r holl gymwysterau sydd ar gael unrhyw ymgeiswyr o gwbl, a llai na 10% yn unig oedd â mwy na 50 o ymgeiswyr.

2.8. Er mai cymwysterau TGAU yw'r rhai mwyaf adnabyddus a gymerir gan bobl ifanc 16 oed, maent yn cyfrif am lai na 5% o gyfanswm nifer y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yr oedran hwn. Felly mae'r mwyafrif helaeth yn gymwysterau heblaw rhai TGAU. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau fel y Dystysgrif Her Sgiliau[8], BTEC, OCR Nationals, ac arholiadau cerddoriaeth wedi'u graddio.

2.9. Yn 2017/2018, nifer y cymwysterau yr oedd dysgwr wedi'u cofrestru ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11 ar gyfartaledd oedd 12.1[9]. Ar gyfartaledd, roedd hyn yn cynnwys 9.5 cymhwyster TGAU a 2.6 cymhwyster arall. Roedd mwyafrif y dysgwyr (79%) wedi'u cofrestru ar gyfer rhwng 10 ac 14 cymhwyster.

2.10. Mae mwy o wybodaeth am y dirwedd cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys sut mae cofrestriadau ar gyfer cymwysterau wedi newid dros amser a'r meysydd pwnc y mae dysgwyr fel arfer yn dewis cymwysterau ynddynt, ar gael yn Atodiad B.

[8] Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn asesu saith sgìl hanfodol a chyflogadwyedd, llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, ac effeithiolrwydd personol. Mae'n gymhwyster ar ei ben ei hun sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru.
[9] Mae hyn yn cyfeirio at nifer y cymwysterau penodol y gwnaeth pob dysgwr gofrestru ar eu cyfer. Nid yw'n cynnwys sawl cais ar gyfer yr un cymhwyster.

3. Ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol

3.1. Rydym wedi datblygu gweledigaeth i arwain ein gwaith ar sut y bydd angen i gymwysterau a gymerir yn 16 oed newid i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

Ein gweledigaeth yw bod pobl ifanc 16 oed yn sefyll cymwysterau ac iddynt barch byd-eang sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

3.2. Mae dysgwyr wrth galon ein gweledigaeth. Rydym yn gweld mai prif bwrpas cymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed yw eu helpu i ddangos yr hyn y gallant ei wneud, a symud ymlaen ar y cam nesaf yn eu taith.

3.3. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen i ni sicrhau y gall cymwysterau alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn golygu y bydd angen newid cymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 16 oed.

3.4. Byddwn yn gwneud y newidiadau hyn mewn modd sy'n:

- ennyn hyder y cyhoedd, gyda derbynioldeb yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang;
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog;
- gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol; ac sy'n
- sicrhau eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy a rheoledig.

Ennyn hyder y cyhoedd, gyda hygrededd yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang

3.5. Er mwyn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, rydym am i bob dysgwr gael mynediad at y cymwysterau gorau a mwyaf perthnasol.

3.6. Gwyddom fod gwerth ac hygrededd cymwysterau yn dibynnu i raddau helaeth ar y graddau y cânt eu cydnabod a'u deall yng Nghymru a thu hwnt.

3.7. Byddwn yn sicrhau bod cymwysterau'n gredadwy ac yn ddibynadwy, gan hefyd ganiatáu digon o hyblygrwydd i ddatblygu dulliau newydd o asesu a all ddiwallu anghenion dysgwyr yn well, nawr ac yn y dyfodol.

3.8. Rydym am weld trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol sy'n ddigon cadarn heb gyfyngu'n ormodol ar yr ystod o ddulliau asesu sydd ar gael. Byddwn yn cadw mewn cof yr angen am reolaethau allanol priodol a chymesur. Mae union lefel y rheolaeth yn debygol o amrywio yn ôl math o gymhwyster, lefel a maes pwnc. Mae rhai cymwysterau yn debygol o fod angen mwy o reolaethau allanol nag eraill.

3.9. Wrth wneud unrhyw newidiadau byddwn yn glir ynghylch y rhesymau dros y newid a'r hyn y bydd yn ei olygu yn ymarferol. Bydd hyn yn helpu i adeiladu dealltwriaeth, hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y cymwysterau hyn, gan roi hygrededd iddynt yng Nghymru a thu hwnt.

Sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog

3.10. Mae'r cwricwlwm newydd yn hyrwyddo tegwch, cyfle cyfartal a chynhwysiant, gan gyflwyno arfer da sy'n cefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial.

3.11. Mae cymwysterau yn ffordd bwysig o gydnabod cyrhaeddiad a rhoi sylfaen a hyder i bob dysgwr symud ymlaen i'r cam nesaf sy'n iawn iddyn nhw. Dylai pob dysgwr gael cyfle cyfartal i ddangos ei gyflawniad trwy'r broses asesu, heb unrhyw grŵp nac unigolyn dan anfantais. Mae'n bwysig ein bod

yn sicrhau bod amrywiaeth eang o gymwysterau ar gael fel bod rhywbeth i bawb.

3.12. Wrth gyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn sicrhau dewis priodol o gymwysterau, ar draws gwahanol lefelau ac yn Gymraeg a Saesneg, i ddiwallu anghenion rhesymol pob dysgwr. Bwriad ein dull yw gwneud yr ystod o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yn fwy syml a chydlynol.

Gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol

3.13. Er mwyn adlewyrchu'n well sut mae pobl ifanc yn dysgu ac yn rhyngweithio â'r byd o'u cwmpas, a'u paratoi ar gyfer dysgu a gweithio yn y dyfodol, rydym am i gymwysterau fod yn flaengar ac i ymgorffori dulliau asesu sy'n defnyddio mwy o elfennau digidol.

3.14. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu pobl ifanc hyderus, galluog a chreadigol yn ddigidol, a'u paratoi ar gyfer byd cynyddol dechnolegol. Felly, rydym am sicrhau bod cymwysterau ac asesiadau yn y dyfodol yn parhau i arloesi yn y maes allweddol hwn.

Cyflawni newid cynaliadwy a reolir

3.15. Bydd gwneud yn siwr bod y cymwysterau a gymerir yn 16 oed yn effeithiol wrth gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol yn gofyn am newidiadau. Fodd bynnag, mae cydbwysedd i'w daro.

3.16. Gyda chymaint o wahanol agweddau ar y system addysg yn newid ar yr un pryd, mae angen inni sicrhau bod graddfa a chyflymder y newid yn iawn. Ar y naill law, gallai gwneud newidiadau cyflym ac ysgubol i gymwysterau dynnu sylw ac adnoddau oddi wrth weithredu'r cwricwlwm newydd a chyfyngu ar ei fuddion. Ar y llaw arall, gallai gwneud ychydig neu ddim newid i gymwysterau gynnal meddylfryd ac arferion cyfredol gan atal canolfannau rhag manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd.

3.17. Wrth i ni adnabod pa newidiadau sy'n ofynnol, byddwn yn ystyried pryd y dylid eu gwneud ac yn blaenoriaethu'r rhai sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y don gyntaf o ddysgwyr i brofi'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn datblygu rhaglen gynlluniedig o newidiadau amserol â ffocws i gymwysterau er mwyn cynorthwyo canolfannau i baratoi ar gyfer y newidiadau a'u gweithredu, wrth iddynt barhau i gyflwyno ac ymgorffori'r cwricwlwm newydd.

3.18. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, credwn ein bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr anghenion tymor byr sydd ar ddod a'r angen i ddiogelu ein gallu i ddiwallu anghenion tymor hwy hefyd.

4. Egwyddorion i lunio cynnig cymwysterau’r dyfodol

4.1. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu set o egwyddorion arweiniol arfaethedig gyda'r nod o lunio'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

4.2. Rydym yn bwriadu i'r holl egwyddorion hyn gael eu defnyddio wrth benderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu’n gyhoeddus.

Cynnig

4.3. Rydym yn cynnig y dylai cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu’n gyhoeddus wneud y canlynol:

- Cysylltu â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi;
- Bod ar gael yn ddwyieithog; a
- Ffurfio rhan o ystod deg a chydlynol sy’n diwallu anghenion pob dysgwr.

4.4. Rydym yn amlinellu'r egwyddorion hyn yn fanylach isod ac yn gofyn am eich adborth ar bob un.

Egwyddor 1: Cymwysterau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru ac yn ei gefnogi

Cynnig: Dylai cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed gysylltu â'r cwricwlwm i Gymru a'i gefnogi.

Rhesymeg ein cynnig

4.5. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o ysbrydoli dysgwyr y dyfodol a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, bydd angen i gymwysterau ar bob lefel fod yn berthnasol i'r cwricwlwm newydd.

4.6. Os mabwysiadir yr egwyddor arfaethedig hon, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu, wrth wneud cais i gymhwyster fod yn gymwys am arian cyhoeddus, ddangos yn glir sut fod y cymhwyster hwnnw'n gysylltiedig â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd ac yn ei gefnogi.

4.7. Gallai tystiolaeth o sut mae cymhwyster yn cefnogi profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol gynnwys:

- sut mae'r cynnwys yn gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn ffordd:
  - sy'n addas
  - sy'n gyfredol
  - sydd o ddyfnder ac ehangder digonol, ac
  - sy'n berthnasol a gafaelgar i ddysgwyr.

- sut mae'r asesiad wedi'i gynllunio i:
  - fod yn ddibynadwy, yn ddilys ac yn briodol i'r cynnwys wedi'i dargedu;
  - fod yn hylaw ar gyfer canolfannau a dysgwyr;
  - wneud y defnydd gorau o dechnoleg; ac
  - adeiladu ar y dull asesu sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y cwricwlwm newydd.

4.8. Dylai mabwysiadu'r egwyddor hon sicrhau bod yr holl gymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed nid yn unig yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd yn effeithiol, ond hefyd yn sicrhau aliniad rhwng y

deilliannau dysgu a fwriadwyd, strategaethau addysgu, dulliau asesu a meini prawf asesu.

4.9. Gallai hyn yn ei dro gael effeithiau cadarnhaol ar sut mae canolfannau'n rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith. Bydd gan ganolfannau fwy o ryddid i arloesi eu dull addysgu os yw'r cymwysterau y maent yn paratoi pobl ifanc ar eu cyfer yn fwy hyblyg yn eu trefniadau asesu.

4.10. Yn yr un modd, bydd yn sicrhau bod parhad yn y trefniadau asesu wrth i ddysgwyr symud ymlaen ar hyd eu taith tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

4.11. Gallai mabwysiadu'r egwyddor hon arwain at ddileu cymwysterau sy'n llai perthnasol o'r cynnig. Rydym yn cydnabod y gallai fod effeithiau negyddol posibl ar rai dysgwyr os na all rhai cymwysterau ddangos eu perthynas â'r cwricwlwm newydd yn ddigonol, ac felly nad ydyn nhw bellach yn rhan o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed. Wedi dweud hynny, os na all cymhwyster fodloni'r egwyddor allweddol hon, yna efallai nad hwn yw'r cymhwyster mwyaf perthnasol a phriodol i ddysgwyr 16 oed ei astudio.

Cwestiwn Ymgynghori

- Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, gysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi.

  I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

  - Cytuno'n gryf
  - Cytuno
  - Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
  - Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf
  - Ansicr

  Esboniwch eich ateb. (*Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon.*

Egwyddor 2: Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog

Cynnig: Dylai cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed fod ar gael yn ddwyieithog.

Rhesymeg ein cynnig

4.12. Mae adolygu sut y bydd angen i gymwysterau esblygu i gefnogi ein gweledigaeth, a nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, yn rhoi cyfle i ni sicrhau cydbwysedd mwy teg o ddarpariaeth Cymraeg a Saesneg ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru. Mae hefyd yn caniatáu i ni edrych ar sut y gallwn ymateb i anghenion y dyfodol, gan gynnwys twf ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

4.13. Ar hyn o bryd, mae ein polisi yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymhwyster a ddatblygir yn benodol ar gyfer Cymru fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Lle mae cymwysterau wedi'u datblygu mewn mannau eraill, ond yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru, rydym yn annog cyrff dyfarnu yn gryf i'w cynnig yn y ddwy iaith. Er mwyn helpu i gynnal a chynyddu argaeledd cymwysterau ac asesiadau dwyieithog, rydym hefyd yn darparu cyllid grant i gyrff dyfarnu.

4.14. Mae'r dull hwn yn golygu bod y mwyafrif o gymwysterau TGAU ar gael yn Gymraeg a Saesneg[10]. Mae'r un peth yn wir am yr holl gymwysterau yr ydym wedi'u comisiynu – er enghraifft, yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a'r sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig. Fodd bynnag, dim ond trwy gyfrwng Saesneg y mae llawer o gymwysterau eraill a ariennir yn gyhoeddus ar gael (62.1% o'r cymwysterau a gynigir[11]).

4.15. Mae'r cwricwlwm newydd a'r diwygiadau addysg ehangach yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng

[10] Roedd 99.8% o'r holl gofrestriadau TGAU a ariennir yn gyhoeddus (ac eithrio cymwysterau Cymraeg a Saesneg) ar gyfer cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r holl gymwysterau TGAU a ddyluniwyd ar gyfer Cymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg y mae rhai cymwysterau TGAU mewn pynciau nad oes llawer yn cofrestru amdanynt ac sydd wedi'u dylunio i fodloni gofynion mewn mannau eraill ar gael.

[11] Canran y cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus a restrir ar QiW fel rhai sydd ar gael i ddysgwyr cyn-16 oed sydd ar gael yn Saesneg yn unig.

Nghymru erbyn 2050[12]. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai un o'r prif ffyrdd o wireddu'r uchelgais hon yw *'datblygu a chynnal sgiliau trwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion*'. Mae hefyd yn disgwyl i'r *'system gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru sicrhau bod dewis o gymwysterau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a llwybrau dilyniant clir'*.[13]

4.16. Mae cynyddu nifer y cymwysterau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth polisi allweddol i ni ac i Lywodraeth Cymru. Bydd mabwysiadu'r egwyddor arfaethedig yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth a chyfrannu at yr amcan cenedlaethol ehangach hwn.

4.17. Fel sy'n digwydd nawr, byddwn yn parhau i fynnu bod yr holl gymwysterau a ddatblygir yn benodol yn y dyfodol ar gyfer Cymru ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. Byddai ein cynnig yn ein gweld yn cryfhau ein disgwyliadau ar gyfer cymwysterau eraill a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, er mwyn sicrhau i'r eithaf eu bod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.18. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, fel rheoleiddiwr, y byddwn yn symud o'r dull caniataol cyfredol o annog i ddull mwy rhagweithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cymwysterau hyn fod ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol.

4.19. Credwn y bydd mabwysiadu'r egwyddor hon yn arwain at gydbwysedd mwy teg o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gallai hefyd roi cyfle i gyrff dyfarnu gynyddu eu cyfran o'r farchnad yng Nghymru trwy gynnig eu cymwysterau yn y ddwy iaith.

4.20. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y gallai hyn, mewn rhai achosion, effeithio ar argaeledd cymwysterau penodol lle, am ba reswm bynnag, na all corff dyfarnu sicrhau bod ei gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.21. Bydd angen i ni ystyried yn ofalus sut rydym yn sicrhau nad yw cymwysterau hanfodol neu arbennig o ddymunol yn cael eu colli o'r cynnig cyffredinol wrth fabwysiadu'r egwyddor hon. Gall y rhain gynnwys cymwysterau sy'n berthnasol i grwpiau penodol o ddysgwyr neu rai mewn

[12] Llywodraeth Cymru: Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021 - https://llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021?_ga=2.50255397.287094966.1573123274-363759732.1544798080

[13] Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

meysydd pwnc penodol. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn defnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael i ni i sicrhau darpariaeth ddwyieithog. Er enghraifft, gallem gyfyngu ar y nifer o gymwysterau y gall ddenu arian cyhoeddus mewn maes penodol. Neu gallem gynnig cyllid grant i gefnogi'r costau cychwynnol i gorff dyfarnu o sicrhau bod cymhwyster ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.22. Mae'n bwysig cydnabod, ar ôl trafod yr holl opsiynau posibl, y gallai fod amgylchiadau cyfyngedig lle byddai angen i ni gymhwyso eithriadau i'r egwyddor hon.

4.23. Rydym yn croesawu barn ar yr amgylchiadau posibl lle gallai fod angen eithriadau i'r egwyddor hon.

Cwestiwn Ymgynghori

- Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

  I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

  - Cytuno'n gryf
  - Cytuno
  - Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
  - Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf
  - Ansicr

  Esboniwch eich ateb. *(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon*.

Egwyddor 3: Cymwysterau sy'n rhan o gynnig teg a chydlynol

Cynnig: Dylai cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed fod yn rhan o ystod deg a chydlynol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr ac sy'n cefnogi addysg eang a chytbwys.

Rhesymeg ein cynnig

4.24. Dylai'r ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gellir eu cymryd yn 16 oed gynnig rhywbeth i bawb.

4.25. Mae'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar gefnogi dilyniant pob dysgwr ar draws continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed, gan gydnabod y gall y cyflymder y mae dysgwyr yn symud ymlaen ar hyd y continwwm fod yn wahanol[14]. Yn yr un modd, credwn y dylai cymwysterau a gymerir yn 16 oed ddarparu ar gyfer anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn ganolog i'n gweledigaeth o gynnig cymwysterau sy'n paratoi pobl ifanc 16 oed ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

4.26. Pa bynnag lefel y mae dysgwr yn gweithio arni, gall cymwysterau fod yn fodd defnyddiol o gydnabod cyrhaeddiad, a rhoi sylfaen a hyder iddynt symud ymlaen i ddysgu pellach neu waith. Dylai pob dysgwr allu astudio cymwysterau a fydd yn ennyn ei ddiddordeb wrth ddysgu, yn ei helpu i wneud cynnydd ystyrlon, yn tystio i'w gyflawniadau, ac yn dangos yr hyn y mae'n barod i fynd i'r afael ag ef nesaf.

4.27. Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc 16 oed yn cymryd cymwysterau ar draws ystod o lefelau. Mae gan ddysgwyr amrywiaeth eang o wahanol anghenion, diddordebau a dyheadau. Rydym am i ganolfannau barhau iallu dewis o ystod o gymwysterau ar draws y gwahanol lefelau hyn.

4.28. Nid yw dysgwyr yn cymryd llawer o'r cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd i ganolfannau. Mae llawer o gymwysterau hefyd yn gorgyffwrdd yn sylweddol neu'n dyblygu ei gilydd. Lle mae hyn yn wir, nid yw bob amser yn glir os y bwriad yw cymryd cymhwyster ochr yn ochr â chymwysterau tebyg eraill, neu fel dewis arall.

[14] Llywodraeth Cymru: Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022 - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/#pedwar-diben-y-cwricwlwm

4.29. Rydym yn bwriadu rheoli'n agosach yr ystod gyffredinol o gymwysterau y gall canolfannau eu cynnig i'w dysgwyr. Mae hyn er mwyn helpu canolfannau i sicrhau bod y cymwysterau y maent yn eu darparu i'w dysgwyr yn diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i wireddu dibenion y cwricwlwm.

4.30. Bydd canolfannau'n gallu dweud sut mae'r cymwysterau maen nhw'n eu cynnig i'w dysgwyr yn:

- Hwyluso twf personol, hyder ac ymgysylltiad mewn dysgu;
- Eu hannog i ddatblygu eu chwilfrydedd a'u creadigrwydd;
- Rhoi mesur clir o gyrhaeddiad sy'n dangos yr hyn y mae dysgwr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud; ac yn eu
- Cefnogi i wneud penderfyniadau ar eu camau nesaf.

4.31. Os mabwysiadwn yr egwyddor hon, byddwn yn ystyried dyluniad cymhwyster wrth benderfynu a ddylid ei wneud yn gymwys i gael eu ariannu'n gyhoeddus. Mae'r canlynol ymhlith yr agweddau ar ddyluniad cymhwyster y gallem eu hystyried:

- Ei brif bwrpas neu ddibenion, gan gynnwys y dysgwyr y bwriedir y cymhwyster ar eu cyfer;
- Y deilliannau dilyniant y mae'n eu cefnogi, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd ar gyfer dysgu neu waith yn y dyfodol;
- Gorgyffwrdd posibl â chymwysterau eraill, gan gynnwys a yw wedi'i fwriadu fel dewis arall neu'n ychwanegiad at unrhyw gymwysterau eraill;
- Pa mor syml y gellir ei gyflwyno a'i astudio ochr yn ochr â chymwysterau eraill fel rhan o gwrs astudio eang a chytbwys; gallai hyn gynnwys, er enghraifft, yr amser addysgu sydd ei angen arno a pha mor hylaw yw ei drefniadau asesu.

4.32. Bydd yr ystyriaethau hyn yn ein helpu i sicrhau bod y cynnig cymwysterau cyffredinol yn fwy cydlynol. Bydd hyn yn ei dro yn helpu canolfannau i gynnig dewis mwy perthnasol o gymwysterau i'w dysgwyr ac yn rhoi cyfle cyfartal i bob dysgwr gael addysg eang a chytbwys.

4.33. Bydd cael gwybodaeth gliriach am bwrpas a dyluniad cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed yn helpu canolfannau i benderfynu pa gymwysterau i'w cynnig i'w dysgwyr. Bydd dysgwyr hefyd yn fwy gwybodus wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa gyfuniadau o gymwysterau i'w cymryd.

4.34. Fel gyda'r ddwy egwyddor arall a gynigiwn, gallai mabwysiadu'r egwyddor hon arwain at ddileu rhai cymwysterau o'r cynnig cyfredol.

Cwestiynau Ymgynghori

- Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnig i bobl ifanc 16 oed i sicrhau ei bod yn deg ac yn gydlynol.

  I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

  - Cytuno'n gryf
  - Cytuno
  - Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
  - Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf
  - Ansicr

  Esboniwch eich ateb. *(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon*.

- A oes unrhyw egwyddorion eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa gymwysterau i'w gwneud yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru? Esboniwch eich ateb.

5. Cymwysterau TGAU addas ar gyfer y dyfodol

Cynnig: Dylai cymwysterau TGAU wedi'u hailddylunio fod yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru.

Rhesymeg y cynnig

Cefndir:

5.1. Y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) yw'r enw a roddir ar y math mwyaf adnabyddus o gymhwyster a gymerir gan ddysgwyr 16 oed yng Nghymru. Er mwyn galluogi cymwysterau i gyflawni ein gweledigaeth, ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, bydd angen i gymwysterau TGAU newid. Felly rydym wedi bachu ar y cyfle hwn i ystyried a ddylai'r cymwysterau sy'n rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer dysgwyr 16 oed barhau i gael eu galw'n TGAU.

5.2. Mae'r enw TGAU wedi'i hen sefydlu ac mae'n cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd. Credwn fod cadw'r enw TGAU yn ein galluogi i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol i ddyluniad cymwysterau wrth elwa hefyd ar gadw enw sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn eang.

Manteision cadw'r enw TGAU

5.3. Rydym o'r farn fod llawer o **fanteision** i gadw'r enw TGAU i ddisgrifio cymwysterau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Mae cymwysterau TGAU wedi bodoli ers dros ddeng mlynedd ar hugain ac yn cael eu gwerthfawrogi, eu deall a'u cydnabod gan lawer o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, cyflogwyr, darparwyr ôl-16 a phrifysgolion

5.4. Mae cymwysterau TGAU hefyd yn cael eu cymryd gan ddysgwyr 16 oed yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Felly mae cyflawni TGAU yn dangos bod unigolyn wedi cwblhau cwrs astudio ystyrlon y gellir ei gymharu o ran ehangder, dyfnder a her i gymwysterau a gymerir mewn rhannau eraill o'r

DU. Mae rhanddeiliaid yn deall lefel y wybodaeth, y sgìl a'r profiad y gellir ei disgwyl gan unigolyn sydd wedi cyflawni TGAU, ac yn aml disgrifir gofynion mynediad ar gyfer astudiaeth bellach a gwaith yn y termau hyn. Mae'r enw TGAU yn dangos yn glir fod y cymhwyster wedi'i alinio ag addysg uwchradd. Gall hyn gynorthwyo dealltwriaeth o'r lefel ddisgwyliedig o wybodaeth, sgiliau a phrofiad, yn enwedig y tu allan i Gymru.

5.5. Mae cymwysterau TGAU yn cael eu cydnabod yn eang gan golegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant, prifysgolion a chyflogwyr yng Nghymru, ledled y DU ac yn rhyngwladol. Felly gellir sicrhau dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau TGAU y bydd eu cyflawniadau'n cael eu cydnabod yn ddiweddarach mewn bywyd, yng Nghymru a thu hwnt.

5.6. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad yn archwilio hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru sy'n cefnogi'r safbwyntiau hyn. Yn ein harolwg blynyddol o ganfyddiadau'r cyhoedd, roedd 80% o'r ymatebwyr yn teimlo bod cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy a chytunodd 69% fod cymwysterau TGAU yn cael eu deall yn dda[15]. Nododd adroddiad pellach yn crynhoi canfyddiadau ymgysylltu ansoddol â rhanddeiliaid allweddol fod cymwysterau TGAU yn dal i gadw cefnogaeth gref yng Nghymru. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn eu bod yn arwydd dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwr[16].

Bydd cadw'r enw TGAU yn caniatáu rhywfaint o barhad yn y system addysg ar adeg o newid sylweddol

5.7. Bydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn golygu cyfnod sylweddol ac estynedig o newid ac addasu i ganolfannau. Bydd cadw'r enw TGAU yn caniatáu rhywfaint o barhad a sefydlogrwydd yn y system tra'n caniatáu lle i'r cwricwlwm newydd ymsefydlu. Gallai datblygu teitl cymhwyster cwbl newydd dynnu sylw ac adnoddau oddi wrth y cwricwlwm newydd a rhwystro ei allu i esblygu yn ôl y bwriad. Dros amser, wrth i ganolfannau addasu a mireinio eu dull o gyflawni'r cwricwlwm newydd, bydd ei

[15] Cymwysterau Cymru: Arolwg Barn y Cyhoedd am Gymwysterau nad ydynt yn Raddau yng Nghymru 2018 - https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/measuring-public-confidence-and-perceptions-of-qualifications-wave-2-may-2019/

[16] Cymwysterau Cymru: Archwilio hyder mewn cymwyusterau a'r system gymwysterau yng Nghymru - https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/exploring-confidence-in-qualifications-and-the-qualification-system-in-wales/

oblygiadau a'i alwadau ehangach yn dod yn gliriach. Mae cadw'r enw TGAU yn golygu y byddwn yn gallu ymateb yn gyflym i adnabod a gwneud newidiadau penodol i gymwysterau pan fydd eu hangen.

Mae'r enw TGAU yn darparu cryn hyblygrwydd a photensial

5.8. Defnyddir yr enw TGAU ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddisgrifio cymwysterau sy'n addas ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed. Mae rhai gwahaniaethau yn nyluniad cymwysterau TGAU a gymerir ym mhob awdurdodaeth[17]. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gellir ymddiried yn y cymwysterau TGAU a ddilynir yng Nghymru, a'u bod yn ddibynadwy ac yn gymaradwy â'r rheini a ddilynir gan ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

5.9. Credwn fod yr enw TGAU yn cynnig digon o hyblygrwydd i gynnal eu dibynadwyedd a'u cymaroldeb wrth addasu ac ymateb i anghenion sy'n newid yng Nghymru hefyd. Er enghraifft, gallem ehangu'r defnydd o e-asesu neu wneud mwy o ddefnydd o asesiadau ar sail prosiect i brofi ystod ehangach o sgiliau a rhoi mwy o lais i ddysgwyr yn y pynciau penodol y maent yn dewis eu hastudio.

5.10. Mae'r enghreifftiau canlynol yn helpu i ddangos yr hyblygrwydd a'r potensial a gynigir gan yr enw TGAU.

- Ers sefydlu cymwysterau TGAU dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, maent wedi'u diwygio sawl gwaith. Yn fwyaf diweddar, cyflwynwyd cymwysterau TGAU a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru ar gyfer eu haddysgu'n gyntaf o 2015. Roedd rhai o'r newidiadau a wnaed yn ystod y cam hwn o ddiwygio yn cynnwys cyflwyno mwy o ffocws ar y dimensiwn Cymreig a newid pwysiad a dyluniad asesiad di-arholiad.

- Wrth ystyried pa newidiadau i'w gwneud, byddwn yn cadw mewn cof bwysigrwydd sicrhau cymaroldeb â chymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae rhai gwahaniaethau eisoes yn y cymwysterau TGAU a gymerir gan ddysgwyr ymhob un o'r awdurdodaethau hyn yn y DU. Er enghraifft, mae cymwysterau TGAU yng Nghymru wedi'u graddio A*-G, yn Lloegr maent wedi'u graddio 9-1, ac yng Ngogledd

[17] https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/tgau/

Iwerddon mae graddfa graddau A*-G wedi'i haddasu sy'n cynnwys gradd C* ychwanegol.

- Gellir addasu cymwysterau TGAU i asesu gwahanol fathau o gynnwys, gan gynnwys cymysgedd o wybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol. Felly gallant ddiwallu anghenion dysgwyr damcaniaethol ac ymarferol. Nid oes gennym farn sefydlog ar ba bynciau y gellir eu datblygu fel cymwysterau TGAU, ar yr amod eu bod yn seiliedig ar gynnwys sy'n gydlynol, eu bod yn ymgysylltu â dysgwyr, a bod modd eu hasesu'n briodol.

5.11. Mae'r cymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer Cymru yn cynnig rhai enghreifftiau o sut y gellir cynllunio TGAU i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Dyma'r tro cyntaf i TGAU gael ei ddatblygu yn y maes pwnc hwn. Bydd yn cael ei asesu trwy gyfuniad o asesiad ar y sgrin a di-arholiad a bydd yn cynnwys opsiynau fel y gall canolfannau deilwra'r cwrs i weddu i'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Bydd cynnwys y cymhwyster yn cefnogi dull unigol o ddysgu trwy ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr archwilio adeiladau yn eu cymunedau eu hunain, a thrwy annog canolfannau i weithio gyda sefydliadau lleol perthnasol[18].

5.12. Mae'n bwysig nodi, er y byddwn yn archwilio ffyrdd y gellir gwneud cymwysterau TGAU yn hygyrch i ddysgwyr mewn ystod o wahanol feysydd pwnc, nid ydym yn bwriadu mai cymwysterau TGAU fydd yr unig fath o gymhwyster sydd ar gael i ddysgwyr. Byddwn yn adolygu'r holl gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 16 oed wrth lunio'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

- Mae cymwysterau TGAU wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i'r mwyafrif o ddysgwyr 16 oed oherwydd eu bod yn cynnwys dysgu ac asesu sy'n briodol i ddysgwyr ar lefelau un a dau. Er bod hyn yn lliniaru rhai o anfanteision posibl system dwy haen, gall cael graddfa raddio sengl sy'n rhychwantu ystod mor eang o gyrhaeddiad ddigalonni rhai dysgwyr. Fel rhan o'r cam nesaf o waith, byddwn yn ystyried sut y gellir gwneud cymwysterau TGAU yng Nghymru yn fwy deniadol i ddysgwyr o bob gallu, gan gynnwys edrych eto ar sut y cânt eu graddio.

[18] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/approval-criteria-for-gcse-built-environment-aug-2019/

Yr heriau posibl o gadw'r enw TGAU

5.13. Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, rydym hefyd wedi ystyried yr **heriau** o gadw'r enw TGAU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Creu canfyddiad na fydd fawr ddim newid, os o gwbl, i gymwysterau a fydd yn ategu'r cwricwlwm newydd. Gallai hyn gynnal meddylfryd ac arferion cyfredol, a allai rwystro gweithrediad ac esblygiad llawn y cwricwlwm newydd.

- Mae'r enw TGAU yn dod â llawer o ragdybiaethau ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â sut mae'r cymwysterau hyn yn gweithredu ar hyn o bryd a'r rôl y maent yn ei chwarae yn y system addysg ehangach. Gallai'r rhain rwystro canolfannau rhag gwneud defnydd llawn o'r hyblygrwydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd.

Dull amgen

5.14. Fel dewis amgen i'r cynnig hwn, rydym wedi ystyried yr opsiwn o ddatblygu cyfres bwrpasol o gymwysterau ar gyfer Cymru, a fyddai â theitl cymhwyster gwahanol. Gallai hyn gynnig y potensial i ystyried rhai o hanfodion y system gymwysterau mewn modd mwy radical, gan gynnwys:

- sut yr adroddir ar gyflawniadau a phrofiadau dysgwyr;
- pryd bydd dysgwyr yn dechrau astudio ar gyfer y cymwysterau hyn;
- hyd yr amser addysgu ac astudio sy'n ofynnol fel arfer i gyflawni'r cymhwyster; a
- y posibilrwydd o gyfuno modiwlau o wahanol feysydd pwnc i ffurfio un cymhwyster.

5.15. Byddai newid mor sylweddol â hyn yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol ar draws y system addysg a thu hwnt. Ar hyn o bryd, ni welwn unrhyw arwydd o'r angen am ailwampio mor radical o'r holl brif gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr 16 oed yng Nghymru. Bydd yn cymryd amser i'r cwricwlwm newydd gael ei wreiddio mewn canolfannau ac i'r addysgu a'r dysgu esblygu. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol ystyried newid mor radical nes bod goblygiadau'r cwricwlwm newydd yn cael eu deall ymhellach.

5.16. Mae datblygu cyfres bwrpasol o gymwysterau ar gyfer Cymru hefyd yn dod â rhai risgiau sylweddol. Gellir ystyried y rhain fel gwrthddadleuon manteision cadw cymwysterau TGAU, fel yr amlinellwyd uchod. Er enghraifft, byddai'n cymryd blynyddoedd lawer ac ymdrech gyfathrebu barhaus ar raddfa fawr cyn i randdeiliaid ddod yn gyfarwydd â'r cymwysterau newydd ac ymddiried ynddynt.

Crynodeb

5.17. I grynhoi, mae cadw'r enw TGAU yn golygu y gallwn ailgynllunio'r cymwysterau hyn i sicrhau eu bod yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, a chwrdd â'n gweledigaeth, heb golli manteision yr enw. Ar y cam hwn, credwn y byddai symud i ffwrdd o'r enw TGAU gwerthfawr a chydnabyddedig yn tynnu sylw diangen oddi wrth y gwaith pwysig o sicrhau bod y cymwysterau eu hunain yn addas ar gyfer y dyfodol.

5.18. Os mabwysiadwn y cynnig hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, trwy ddigwyddiadau ymchwil ac ymgysylltu, i lywio cynigion yn y dyfodol ar sut y gall agweddau megis y meysydd pwnc, cynnwys, strwythur a dulliau asesu a ddefnyddir mewn cymwysterau TGAU cyfredol newid.

5.19. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, byddwn yn ystyried pwysigrwydd sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cadw cymaroldeb a chludadwyedd ag awdurdodaethau eraill y DU, a byddwn yn gweithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr a rhanddeiliaid o bob rhan o'r DU i ddeall effaith unrhyw newidiadau arfaethedig.

5.20. Trwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i lunio'r cynigion hyn, byddwn yn helpu i ysgogi cefnogaeth a chydnabyddiaeth i'r cymwysterau TGAU newydd. Byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau lefel uchel arfaethedig yn 2020, a chynigion manylach yn 2021.

Cwestiynau Ymgynghori

- Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw'r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

  I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

  - Cytuno'n gryf
  - Cytuno
  - Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
  - Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf
  - Ansicr

  Esboniwch eich ateb.

- A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i gymwysterau TGAU newid i gyflawni ein gweledigaeth ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd? Esboniwch eich ateb.

6. Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach

Cynnig: Dylai'r cynnig cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed gynnwys cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd.

Rhesymeg y cynnig

6.1. Mae'r cwricwlwm newydd yn cydnabod ei bod yn hanfodol i ddysgwyr ddatblygu ystod o sgiliau sy'n angenrheidiol i'w paratoi ar gyfer bywyd modern a'r gweithle. O ganlyniad, bydd y sgiliau canlynol yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd:

- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Effeithiolrwydd personol

6.2. Mae'r cwricwlwm newydd yn cyfeirio at y rhain fel 'sgiliau ehangach' ac yn nodi eu bod yn hanfodol i ddysgwyr ddod yn fwy gwydn a gallu ymateb yn well i'r heriau y maent yn eu hwynebu, nawr ac yn y dyfodol[19].

6.3. Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'r sgiliau hyn hyd at 16 oed, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau hyn fod yn rhan o'r cynnig cymwysterau.

6.4. Ar hyn o bryd, asesir y sgiliau hyn yn y Dystysgrif Her Sgiliau, y mae bron pob dysgwr 16 oed yng Nghymru yn ei hastudio. Mae'r cymhwyster hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr arddangos y sgiliau hyn trwy dair her a phrosiect unigol[20].

[19] Llywodraeth Cymru: Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022 - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/#elfennau-ac-ystyriaethau-trawsbynciol-eraill

[20] Mae rhagor o wybodaeth am y Dystysgrif Her Sgiliau gyfredol ar gael yma: https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/ks4-national-foundation/Welsh%20Baccalaureate%20Specification%20KS4%20National-Foundation%20CYMRAEG-%20Branded.pdf?language_id=2

6.5. Yn ddiweddar, gwnaethom adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau a chanfod ei bod yn gymhwyster gwerth chweil sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill sgiliau bywyd go iawn ac i ddatblygu eu diddordebau trwy ddewis meysydd astudio sy'n berthnasol iddynt[21]. Roedd dysgwyr ac athrawon yn gadarnhaol am egwyddorion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn, a oedd, yn eu barn hwy, yn ddefnyddiol ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol neu astudiaeth bellach.

6.6. Cryfder arall a nodwyd yn y Dystysgrif Her Sgiliau yw y gall y cynnwys gael ei deilwra gan ganolfannau a dysgwyr unigol i alluogi ffocws ar bynciau a materion sy'n bersonol berthnasol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cymhwyster yn hygyrch i ddysgwyr o bob gallu. Mae'r nodwedd hon o'r cymhwyster yn cyd-fynd yn dda â nod y cwricwlwm newydd i ganolfannau fod yn fwy hyblyg, creadigol ac arloesol yn eu dull o addysgu a dysgu[22].

6.7. Nododd adroddiad diweddar gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru sawl maes hefyd lle gwerthfawrogwyd cymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau, gan gynnwys cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt[23].

6.8. Nododd ein hadolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'r adroddiad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg(PPIA) agweddau ar y cymhwyster cyfredol a allai elwa o ddatblygiad pellach. Felly, rydym yn cynnig fersiwn wedi'i hailgynllunio o'r cymhwyster hwn sy'n rhan o'r cynnig cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gallai ei fodel dylunio ac asesu gael ei ailgynllunio i fod yn symlach ac yn fwy dibynadwy a chefnogi'r cwricwlwm newydd. Ein nod yw cael cymhwyster yn seiliedig ar sgiliau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, sef cymhwyster sy'n ddeniadol, yn hylaw ac yn glir i'w ddeall, ac yn berthnasol i ddysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.

---

[21] Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru – https://www.qualificationswales.org/media/3312/review-of-scc-final-report-w.pdf

[22] Llywodraeth Cymru: Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022 - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/#trosolwg

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru - http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12487/cr-ld12487-w.pdf

6.9. Rydym yn cynnig bod y cymhwyster wedi'i ailgynllunio ar gael i ddysgwyr 16 oed fel cymhwyster penodol. Mae unrhyw benderfyniad ynghylch a fydd y cymhwyster hwn yn orfodol, neu sut y mae'n cyd-fynd â fframwaith ehangach, fel Bagloriaeth Cymru, yn fater i Lywodraeth Cymru.

6.10. Dewis amgen fyddai ymgorffori datblygiad ac asesiad sgiliau ehangach mewn cymwysterau eraill, a pheidio â chael cymhwyster penodol sy'n canolbwyntio arnynt. Mae risg bosibl y gallai bod â chymhwyster penodol sy'n datblygu ac yn asesu sgiliau ehangach arwain at ddatblygu'r sgiliau hyn trwy'r cymhwyster hwn yn unig, ac nid ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw argaeledd cymhwyster o'r fath yn atal y sgiliau hyn rhag cael eu cynnwys mewn cymwysterau a rhaglenni dysgu eraill lle maent yn berthnasol.

6.11. Bydd cymhwyster penodol yn cynorthwyo datblygiad y sgiliau hyn trwy roi cyfle i athrawon a dysgwyr ganolbwyntio arnynt mewn cyd-destun sy'n bersonol berthnasol ac yn ddeniadol. Bydd yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfle i ddatblygu'r sgiliau hyn, yn hytrach na'i fod yn ddibynnol ar y cymwysterau eraill y maen nhw'n dewis eu hastudio. Bydd hefyd yn rhoi syniad i ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg o lefel cymhwysedd unigolyn yn y sgiliau ehangach hyn.

6.12. Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, rydym hefyd wedi ystyried yr effeithiau posibl ar ystod o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, dysgwyr, cyrff dyfarnu, cyflogwyr, darparwyr ôl-16 a phrifysgolion.

Crynodeb

6.13. Bydd cymhwyster penodol sy'n datblygu ac yn asesu sgiliau ehangach yn helpu i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm, tra hefyd yn cefnogi dysgwyr o bob gallu i ddatblygu sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr, darparwyr ôl-16 a phrifysgolion.

6.14. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn darparu sylfaen dda ar gyfer datblygu'r cymhwyster hwn. Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a phrofi syniadau ar gyfer sut y gellid datblygu'r cymhwyster ymhellach. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer newid y Dystysgrif Her Sgiliau yn 2020.

Cwestiynau Ymgynghori

- Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

  I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

  - Cytuno'n gryf
  - Cytuno
  - Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
  - Anghytuno
  - Anghytuno'n gryf
  - Ansicr

  Esboniwch eich ateb.

- A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 newid i gyflawni ein gweledigaeth a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd? Esboniwch eich ateb.

7. Asesiad Effaith Integredig

7.1. Rydym wedi cwblhau asesiad effaith integredig sy'n cynnwys:

- Asesiad effaith rheoleiddiol yn amlinellu effaith bosibl ein cynigion ar ein trefniadau rheoleiddio
- Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg o ystyried effeithiau posibl ein cynigion ar y Gymraeg
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn archwilio effeithiau posibl ein cynigion ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

7.2. Gellir gweld y ddogfen hon yma.

Cwestiynau Ymgynghori

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, hoffem glywed eich barn am y canlynol:

➢ Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddiol yr ydym yn eu rhagweld o'r cynigion hyn. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.*

- A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai ddeillio o unrhyw un o'n cynigion yr hoffech eu nodi? Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.
- A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol unrhyw un o'n cynigion? Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar effaith reoleiddiol y cynigion hyn? Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.

- Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar y *Gymraeg* a maes cydraddoldeb. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.*

  - A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

    - effaith gadarnhaol
    - dim effaith
    - effaith negyddol
    - ansicr

    Esboniwch eich ateb.

  - A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

    - effaith gadarnhaol
    - dim effaith
    - effaith negyddol
    - ansicr

    Esboniwch eich ateb.

  - A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

    - effaith gadarnhaol
    - dim effaith
    - effaith negyddol
    - ansicr

    Esboniwch eich ateb.

8. Gwaith yn y dyfodol

8.1. Y ddogfen hon yw'r gyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau. Mae'n fan cychwyn pwysig ar gyfer datblygu cymwysterau uchel eu parch yn rhyngwladol sy'n ysbrydoli a pharatoi dysgwyr 16 oed ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

8.2. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i fireinio'r egwyddorion ar gyfer datblygu'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol, cadarnhau a ddylem gadw'r enw TGAU yng Nghymru, a datblygu ein dull o asesu'r 'sgiliau ehangach' a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd.

8.3. Ar ôl i ni wneud hyn, ein camau nesaf fydd datblygu:

- cynigion ar gyfer y meysydd pwnc a ddylai fod yn rhan o'r cynnig cymwysterauar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru;
- gofynion dylunio cyffredinol ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol sy'n unol â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion;
- cynigion ar gyfer cymwysterau i gefnogi un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg; a
- chynigion manylach ar sut i asesu'r 'sgiliau ehangach' a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd.

8.4. Rydym eisoes wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi a thrafod syniadau, trwy ein gweithgareddau ymchwil a'n gwaith ymgysylltu cynnar. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu cynigion clir, y byddwn yn ymgynghori arnynt yn 2020 a 2021. Os bydd y newidiadau y cytunwyd arnynt mewn cymwysterau yn golygu newidiadau sylweddol i'n trefniadau rheoleiddio, byddwn yn ymgynghori ar y rhain maes o law.

8.5. Yn ystod yr amser hwn, byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein ffordd o feddwl mewn meysydd eraill, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cefnogi llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol trwy gymwysterau, a pha gyngor y gallem ei ddarparu i'r Gweinidog ar ddyluniad a defnydd posibl o Fagloriaeth Cymru yn y dyfodol.

8.6. Byddwn yn parhau i roi sylw i'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'n hamcanion perthnasol mewn perthynas â'r Ddeddf hon.

Atodiadau

Atodiad A: Sut rydym wedi datblygu'r ymgynghoriad hwn

1.1 Rydym wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i ddatblygu'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon ac i asesu eu heffeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol). Mae'r adran hon yn crynhoi'r gweithgareddau hyn.

Ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid

1.2 O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi cymryd diddordeb agos yng ngwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. O arsylwi ar y gweithdai gydag Ysgolion Arloesi'r cwricwlwm dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi ennill dealltwriaeth gref o'r cwricwlwm newydd a'i nodau. Dyma oedd sylfaen ein gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

1.3 Mae ymgysylltu'n gynnar ag ystod o randdeiliaid wedi bod yn allweddol i'n helpu i ddatblygu'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae ymgysylltu wedi ein helpu i ddeall barn a disgwyliadau rhanddeiliaid, ac i brofi a mireinio ein ffordd o feddwl.

1.4 Yn ystod 2019, rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid trwy gyfuniad o gyfarfodydd un i un, digwyddiadau briffio a gweithdai.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Aelodau'r Cynulliad
- Arbenigwyr asesu academaidd
- Consortia rhanbarthol
- Colegau addysg bellach a phrifysgolion
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- ColegauCymru
- Cyflogwyr
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau trydydd sector
- Cyrff dyfarnu
- Dysgwyr
- Darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon
- Estyn
- Llywodraeth Cymru
- Rheoleiddwyr cymwysterau eraill
- Undebau'r athrawon
- Ysgolion a darparwyr dysgu cyn-16 eraill

1.5 Mae'r gweithgareddau hyn wedi ein helpu i lunio cynigion cadarn ynghylch cymwysterau yn y dyfodol – er enghraifft, mewn perthynas â'r enw TGAU a'r egwyddorion arweiniol y dylai pob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus, ac gymerir gan bobl ifanc 16 oed gadw atynt.

1.6 Mae ein hymgysylltiad hefyd wedi ein helpu i ddiffinio meysydd allweddol o waith yn y dyfodol, fel y disgrifir yn adran 8 o'r ddogfen hon.

Asesu effaith ein cynigion

1.7 Rydym wedi defnyddio data a gwybodaeth o'r gweithgareddau canlynol i helpu i asesu effeithiau posibl y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn:

- data a gasglwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y cwricwlwm newydd, gan gynnwys sesiynau gyda rhanddeiliaid ledled Cymru, h.y. ymarferwyr, consortia rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Estyn ac yn ehangach;
- casglu a dadansoddi data ar ddarparu cymwysterau cyn-16 a nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 11 yn 2017/18;
- cyfarfodydd â rhanddeiliaid, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar eu hasesiad effaith o'r cwricwlwm;
- ymchwil ddesg, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth; a
- gweithdai mewnol i ddatblygu a mireinio meddwl.

1.8 Lle y bo'n briodol, rydym wedi integreiddio effeithiau posibl ein cynigion i brif gorff yr ymgynghoriad hwn. Mae'r cwestiynau a ofynnwn am ein cynigion wedi'u cynllunio i gasglu tystiolaeth am yr effeithiau hynny. Er tryloywder, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein hasesiad effaith fel dogfen annibynnol.

Rhagdybiaethau gweithio

1.9 Rydym wedi seilio ein cynigion ar rai rhagdybiaethau a chyfyngiadau allweddol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn sefydlog ac y byddant yn newid dros amser. Wrth i'n meddwl a'n gwaith fynd rhagddo, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu a diweddaru'r rhagdybiaethau hyn.

1.10 Manylir ar y rhagdybiaethau a'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio iddynt isod.

Bydd trefniadau gwerthuso a gwella yn y dyfodol yn gosod dibyniaeth fwy cymesur ar ddeilliannau cymwysterau

1.11 Nod polisi datganedig Llywodraeth Cymru yw symud i ffwrdd o ddiwylliant atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol, sy'n rhoi pwyslais a phwysau gormodol ar ddeilliannau cymwysterau, tuag at system ymddiriedaeth uwch sy'n canolbwyntio ar hunanarfarnu cadarn gan ganolfannau[24].

1.12 Bydd y dull arfaethedig yn rhoi mwy o bwyslais ar hunanarfarnu gan ganolfannau[25]. Bydd canolfannau'n gallu gwerthuso eu heffeithiolrwydd eu hunain gan ddefnyddio set lawer ehangach a chyfoethocach o ddata a gwybodaeth gyd-destunol nag y mae'r system gyfredol yn ei chaniatáu.

1.13 Os gweithredir y polisi hwn, rydym yn tybio y bydd deilliannau cymwysterau yn un agwedd ar gyfres ehangach o fesurau perfformiad a ddefnyddir i werthuso canolfannau, yn hytrach na'r prif ffocws fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd angen i gymwysterau a'u hasesiadau fod yn ddigon dibynadwy a chadarn i gyfrannu tuag at werthuso canolfannau a'i hwyluso, ond bydd y gwahaniaeth mewn pwyslais yn caniatáu mwy o ryddid wrth ddatblygu trefniadau asesu priodol.

Ni fydd newidiadau i gymwysterau yn 16 oed o reidrwydd yn arwain at newidiadau mawr i gymwysterau ôl-16

1.14 Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Mae addysgu a dysgu ôl-16 y tu allan i gwmpas y cwricwlwm newydd. Yn yr ymgynghoriad hwn a'n gwaith dilynol, byddwn yn canolbwyntio ar gymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yn 16 oed.

1.15 Wrth gynnig newidiadau i gymwysterau yn 16 oed, byddwn yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau sydd gan y newidiadau hyn o ran symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16. Lle bo angen, byddwn yn edrych ar newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i gymwysterau ôl-16 penodol.

[24] Llywodraeth Cymru: Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/trefniadau-drafft-gwerthuso-a-gwella-atebolrwydd-ar-gyfer-cymru.pdf

[25] Cynigion Llywodraeth Cymru ar sut y dylid dwyn ysgolion i gyfrif o dan y cwricwlwm newydd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 - https://llyw.cymru/trefniadau-gwerthuso-gwella-ysgolion-atebolrwydd

Fodd bynnag, rydym yn tybio nad yw ein gwaith yn debygol o arwain at newidiadau ar raddfa fawr i gymwysterau ôl-16.

Ni ddylai pob agwedd ar y cwricwlwm arwain at gymwysterau yn 16 oed

1.16 Dylai pawb, waeth beth fo'u cefndir neu eu hanghenion, allu cyflawni eu potensial, gan ennill y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. I'r mwyafrif, bydd ennill cymwysterau yn allweddol, ond dim ond un elfen o'u hastudiaethau ydyw.

1.17 Rydym yn tybio na fydd pob agwedd ar y cwricwlwm newydd yn arwain at gymwysterau. Er enghraifft, mae profiadau yn nodwedd bwysig o ddysgu o fewn y cwricwlwm newydd ac mae'n annhebygol y bydd modd asesu'r holl brofiadau hyn yn uniongyrchol. Rydym yn tybio y bydd blynyddoedd olaf yr ysgol uwchradd yn cynnwys mwy na pharatoi ar gyfer cymwysterau yn unig.

Bydd nifer o randdeiliaid yn defnyddio deilliannau cymwysterau yn 16 oed at ddibenion gwahanol

1.18 Nid dysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau yn unig fydd yn defnyddio deilliannau cymwysterau; bydd ystod o randdeiliaid fel colegau addysg bellach a phrifysgolion, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr, Estyn, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio hefyd. Felly, mae'n bwysig fod pob un o'r rhanddeiliaid hyn (ac eraill) yn cael cyfle i ddweud eu dweud ar yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol.

1.19 Rhaid i'r ffordd yr adroddir ar ddeilliannau cymwysterau fod yn glir, yn hawdd ei ddeall ac yn ddigon cywir i ennyn hyder ac ymddiriedaeth gan y rhai sy'n dibynnu arnynt.

Atodiad B: Tirwedd cymwysterau yng Nghymru

1.1 Isod, rydym yn cynnig trosolwg o'r ystod o gymwysterau sy'n gymwys i gael eu hariannu'ngyhoeddus ar hyn o bryd, gan gynnwys faint sy'n cael eu cymryd yn nodweddiadol gan ddysgwyr.

Pa gymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru?

1.2 Mae'r dirwedd cymwysterau gyfredol ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn gymhleth, gyda llawer o gymwysterau'n gorgyffwrdd neu'n dyblygu ei gilydd. Ym mis Medi 2019, gallai canolfannau yng Nghymru ddewis o blith dros 1,600 o gymwysterau, yn bennaf yn amrywio o lefel mynediad i lefel tri[2627]. Fel canllaw, mae cymwysterau TGAU yn rhychwantu lefelau un a dau, ac mae Safon Uwch ar lefel tri.

1.3 Er mai cymwysterau TGAU yw'r cymwysterau mwyaf adnabyddus a gymerir gan bobl ifanc 16 oed, maent yn cyfrif am lai na 5% o gyfanswm nifer y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yr oedran hwn. Fel y dengys y siart isod, mae mwyafrif y cymwysterau sydd ar gael yn gymwysterau eraill ar lefel mynediad, lefel un a lefel dau. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau fel y Dystysgrif Her Sgiliau, BTEC, OCR Nationals, ac arholiadau cerddoriaeth wedi'u graddio.

[26] Diffinnir y lefelau cymwysterau hyn yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) - https://llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau

[27] Mae nifer fach iawn o gymwysterau celfyddydau perfformio arbenigol uwchlaw lefel tri ar gael i ddysgwyr 16 oed. Fe'u tynnwyd o'r holl ddadansoddiadau yn yr adran hon oherwydd ni chawsant eu defnyddio o gwbl mewn canolfannau a ariennir yn gyhoeddus rhwng 2014/15 a 2017/18, ac oherwydd nad ydynt yn gynrychiadol o lefel y cymwysterau a gynigir yn nodweddiadol i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

Ffigur 1: Nifer y cymwysterau TGAU a chymwysterau eraill sydd ar gael i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru ym mis Medi 2019, yn ôl lefel y cymhwyster



Ffynhonnell: QiW

Pa gymwysterau y mae dysgwyr 16 oed yng Nghymru yn cofrestru ar eu cyfer?

1.4 Er mwyn ein galluogi i archwilio pa gymwysterau y mae dysgwyr 16 oed yng Nghymru yn cofrestru ar eu cyfer, rhaid inni droi yn ôl at ddefnyddio data o flwyddyn academaidd 2017/18, sef y data diweddaraf sydd ar gael. Yn y flwyddyn hon, roedd dros 2,000 o gymwysterau yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed. O'r cymwysterau hyn, ni chofrestrwyd unrhyw ddysgwyr ar gyfer bron i 70% (dros 1,400), roedd mwy na 5 wedi cofrestru ar gyfer ychydig dros 20% (447), a dim ond 3% (62) a ddenodd fwy na 500 o gofrestriadau. Mae Ffigur 2 isod yn dangos nifer y cymwysterau a oedd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2017/2018, a faint o ddysgwyr a oedd yn cofrestru ar gyfer cymwysterau ar draws y gwahanol lefelau.

Ffigur 2: Nifer y cymwysterau cyn-16 a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael a'r rhai sy'n cyflawni meincnodau cofrestru amrywiol yng Nghymru, 2017/18



Roedd dros 1,400 o'r cymwysterau sydd ar gael - bron i **70%** - yn gysylltiedig â dim cofrestriadau gan ddysgwyr yn 2017/18.

Denodd llai nag **1 o bob 10** o gymwysterau fwy na 50 cofrestriad, tra bod gan **3%** fwy na 500 o gofrestriadau.

Ffynonellau: QiW, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

1.5 Mae'n berthnasol nodi, er mai dim ond rhan fach o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru yw cymwysterau TGAU, nhw yw'r rhai sy'n derbyn y rhan fwyaf o gofrestriadau o bell ffordd. Er enghraifft, cofrestrodd 29,000 o ddysgwyr ar gyfer TGAU Mathemateg CBAC ym mlwyddyn academaidd 2017/18. Mae hyn o'i gymharu â llai na 5,000 o ddysgwyr a gofrestrodd ar gyfer Tystysgrif Lefel 2 LIBF mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfa, sef y cymhwyster mwyaf poblogaidd ym maes mathemateg nad yw'n TGAU.

Faint o gymwysterau y mae pob dysgwr 16 oed yn cofrestru ar eu cyfer?

1.6 Fel y dangosir yn Ffigur 3 isod, ym mlwyddyn academaidd 2017/18 nifer y cymwysterau unigryw a gofrestrwyd ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11 ar gyfartaledd oedd 12.1[28]. Ar gyfartaledd, roedd hyn yn cynnwys 9.5 cymhwyster TGAU a 2.6 cymhwyster arall. Roedd mwyafrif y dysgwyr (79%) yn cofrestru ar gyfer rhwng 10 ac 14 cymhwyster.

Ffigur 3: Nifer y cymwysterau unigryw y cofrestrodd pob dysgwr ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11 yn 2017/18[29]



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

[28] Mae hyn yn cyfeirio at nifer y gwahanol gymwysterau y cofrestrodd pob dysgwr ar eu cyfer. Nid yw'n cynnwys sawl cais ar gyfer yr un cymhwyster.

[29] Mae data yn Ffigurau 3 a 4 yn cynnwys holl ddysgwyr Blwyddyn 11 a gofrestrodd ar gyfer o leiaf un cymhwyster, fel y'u cofnodwyd yng Nghronfa Ddata Arholiadau Cymru. Mae cymwysterau TGAU cwrs byr yn cael eu cyfrif fel 0.5 cymhwyster, mae cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl yn cael eu cyfrif fel dau gymhwyster, ac mae pob cymhwyster arall yn cael ei gyfrif fel un cymhwyster.

1.7 Mae Ffigur 4 isod yn dangos sut mae nifer cyfartalog y cymwysterau y mae dysgwr yn cofrestru ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11 wedi newid dros amser. Er bod nifer cyfartalog y cymwysterau y cofrestrodd pob dysgwr ar eu cyfer wedi gostwng o 13.9 i 12.1 ers 2014/15, mae nifer cyfartalog y cymwysterau TGAU wedi codi o 8.1 i 9.5 dros yr un amser. Gostyngodd nifer y cymwysterau eraill y cofrestrodd dysgwyr ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11 o 5.8 yn 2014/15 i 2.6 yn 2017/18.

Ffigur 4: Nifer cyfartalog y cymwysterau unigryw y cofrestrodd pob dysgwr ar eu cyfer erbyn diwedd Blwyddyn 11, yn ôl y math o gymhwyster



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

Ym mha feysydd pwnc y mae dysgwyr 16 oed yng Nghymru yn cofrestru ar gyfer cymwysterau ynddynt?

1.8 Fel y dangosir yn Ffigur 5 isod, mae nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau yn amrywio'n sylweddol yn ôl maes pwnc. Roedd dros 95% o'r holl ddysgwyr 16 oed mewn canolfannau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru a gofrestrodd ar gyfer o leiaf un cymhwyster wedi cofrestru ar gyfer yr holl bynciau craidd, sef mathemateg, Saesneg/Cymraeg a gwyddoniaeth. Mewn cymhariaeth, cafodd llai nag un dysgwr o bob pump eu cofrestru ar gyfer cymhwyster mewn iaith dramor, ac roedd ychydig

dros 40% o ddysgwyr wedi dechrau ar gymhwyster mewn celfyddydau mynegiannol[30].

Ffigur 5: Nifer y dysgwyr 16 oed mewn canolfannau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru a gofrestrodd ar gyfer o leiaf un cymhwyster yn 2017/18, a'r gyfran a gofrestrodd ar gyfer o leiaf un cymhwyster



* gan gynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau

** cynrychioli'r nifer a gofrestrodd ar gyfer o leiaf 1 cymhwyster

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

[30] Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon wedi'i fwriadu fel mesur o faint o ddysgwyr sy'n cofrstru ar gyfer y cymwysterau hyn ac ni ddylid eu dehongli fel mesur o ba mor bwysig neu werthfawr yw pob cymhwyster/pwnc cysylltiedig. Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn y dyfodol ar ba gymwysterau ddylai fod ar gael, byddwn yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau.